



Dinas a Sir Abertawe

## Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Cronfa Bensiwn

Cyfarfod Aml-Leoliad - Ystafell Gloucester, Neuadd y Ddinas /  
MS Teams

Dydd Mercher, 20 Mawrth 2024 am 10.00 am

**Yn Bresennol:** Y Cyngorydd M B Lewis (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

**Y Cyngorydd(wyr)**

P N Bentu  
M W Locke

**Y Cyngorydd(wyr)**

J P Curtice  
W G Thomas

**Y Cyngorydd(wyr)**

P Downing

**Aelod Cyfetholedig o Gyngor Castell-nedd Port Talbot**

Philip Rogers

**Ymgynghorwyr**

Philip Pearson  
Andre Ranchin  
Mike Johnson

Ymgynghorydd - Hymans Robertson  
Ymgynghorydd - Hymans Robertson  
Ymgynghorydd - Hymans Robertson

**Swyddog(ion)**

Karen Cobb  
Jeffrey Dong  
  
Carolyn Isaac  
Jeremy Parkhouse

Uwch-gyfrifydd  
Dirprwy Brif Swyddog Cyllid / Dirprwy Swyddog Adran  
151  
Cyfreithiwr  
Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Hefyd yn bresennol**

Leanne Malough Archwilio Cymru

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Y Cyngorydd(wyr): Dim.

---

**41 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Yn unol â'r Côt Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, datganwyd y buddiannau canlynol:

Datganodd y Cyngorwyr P N Bentu, J C Curtice, P Downing, M B Lewis, P Rogers ac W G Thomas gysylltiadau personol â'r agenda yn ei chyfanrwydd.

Datganodd I Guy gysylltiad personol â'r agenda yn ei chyfanrwydd.

Swyddogion:

Datganodd K Cobb, J Dong, J Parkhouse ac C Isaac gysylltiadau personol â'r agenda yn ei chyfanrwydd.

#### **42 Cofnodion.**

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod Pwyllgor y Gronfa Bensiwn a gynhaliwyd ar 15 Tachwedd 2024 fel cofnod cywir.

#### **43 Adroddiadau Archwilio Mewnol - Buddsoddiadau Cronfa Bensiwn a Gweinyddiaeth Cronfa Bensiwn.**

Cyflwynodd Jeff Dong, Dirprwy Brif Swyddog Cyllid/Dirprwy Swyddog Adran 151 adroddiad a oedd yn cyflwyno canfyddiadau'r Adroddiadau Archwilio Mewnol ar Fuddsoddiadau'r Gronfa Bensiwn a Gweinyddiaeth y Gronfa Bensiwn.

Amlinellwyd bod Is-adran Archwilio Mewnol Cyngor Abertawe wedi cynnal archwiliad o'r systemau rheoli mewnol fel rhan o'r broses gyloch mewn perthynas â sicrwydd ac adrodd ar reolaeth fewnol gan gwmpasu Buddsoddiadau'r Gronfa Bensiwn a Gweinyddiaeth y Gronfa Bensiwn. Roedd eu gwaith yn cynnwys cynnal profion rheolaidd ar y systemau rheolaeth ariannol a rheolaeth yn y meysydd hyn o waith y Gronfa Bensiwn.

Roedd y lefelau sicrwydd a ddeilliodd o'r gwaith o'r ddau archwiliad yn 'uchel'. Roedd yr Adroddiad Archwilio Mewnol – Buddsoddiadau'r Gronfa Bensiwn wedi'i ddarparu yn Atodiad 1 a'r Adroddiad Archwilio Mewnol – Gweinyddu Pensiynau yn Atodiad 2.

**Penderfynwyd** bod canfyddiadau'r Adroddiadau Archwilio Mewnol mewn perthynas â Buddsoddiadau'r Gronfa Bensiwn (Atodiad 1) a Gweinyddiaeth y Gronfa Bensiwn (Atodiad 2) yn cael eu nodi.

#### **44 Cynllun Busnes Partneriaeth Pensiwn Cymru 2024-27.**

Cyflwynodd y Dirprwy Brif Swyddog Cyllid/Dirprwy Swyddog A151 adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth o ran cynnydd a gwaith Partneriaeth Pensiwn Cymru (WPP). Roedd Atodiad 1 yn darparu Cynllun Busnes WPP ar gyfer 2024-27.

**Penderfynwyd** cymeradwyo Cynllun Busnes WPP ar gyfer 2024-27.

#### **45 Adroddiad am Doriadau.**

Cyflwynodd y Dirprwy Brif Swyddog Cyllid / Dirprwy Swyddog Adran 151 adroddiad 'er gwybodaeth' a oedd yn darparu manylion unrhyw doriadau a gafwyd yn y cyfnod hwn yn unol â'r polisi Adrodd am Doriadau.

Darparodd Atodiad A fanylion ynghylch y toriadau a gafwyd ers cyfarfod diwethaf Pwyllgor y Gronfa Bensiwn ym mis Tachwedd 2023. Nodwyd manylion y toriadau a'r camau gweithredu a gymerwyd gan reolwyr.

#### 46 Cynllun Busnes Cronfa Bensiwn Dinas a Sir Abertawe 2024/25.

Cyflwynodd y Dirprwy Brif Swyddog Cyllid/Dirprwy Swyddog A151 adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth i ddarparu fframwaith gweithredol ar gyfer rhaglen waith y Gronfa Bensiwn ar gyfer 2024/25.

Amlinellwyd bod y Gronfa Bensiwn, yn unol ag arfer gorau, wedi llunio cynllun busnes, cofrestr risgiau, cyllideb a dyraniad asedau i lywio'i rhaglen waith ar gyfer y cyfnod o 12 mis sydd i ddod. Atodwyd y cynllun busnes, y gyllideb, y gofrestr risg a'r dyraniad asedau ar gyfer 2024/25 yn Atodiadau 1, 2, 3 a 4.

**Penderfynwyd** cymeradwyo a nodi'r eitemau canlynol:

- 1) Cynllun Busnes Blynyddol Cronfa Bensiwn Dinas a Sir Abertawe 2024/2025.
- 2) Cofrestr Risgiau 2024/25.
- 3) Dyraniad Asedau.
- 4) Cyllideb 2024/25.

#### 47 Gwahardd y Cyhoedd.

Gofynnwyd i'r pwyllgor wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod er mwyn iddo ystyried yr eitem(au) f/busnes a nodwyd yn argymhelliad/argymhellion yr adroddiad ar y sail ei bod/eu bod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel a nodir ym mharagraff gwahardd Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007 mewn perthynas ag eitem(au) f/busnes a nodir yn yr adroddiad.

Ystyriodd y pwyllgor brawf budd y cyhoedd wrth benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes lle'r oedd prawf budd y cyhoedd yn berthnasol fel a nodir yn yr adroddiad.

**Penderfynwyd** gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitemau busnes canlynol.

(Sesiwn Gaeëdig)

#### 48 Strategaeth Fuddsoddi Strwythuro Gweithredu.

Cyflwynodd y Dirprwy Brif Swyddog Cyllid/Dirprwy Swyddog A151 adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth awdurdod dirprwyedig i roi strwythur buddsoddi'r strategaeth Buddsoddi gymeradwy ar waith.

**Penderfynwyd** cymeradwyo'r caniatâd dirprwyedig i'r Dirprwy Swyddog Adran 151, mewn ymgynghoriad â Chadeirydd Pwyllgor y Gronfa Bensiwn i roi'r strwythur buddsoddi ofynnol (Atodiad 1) ar waith, fel y'i pennir gan y strategaeth buddsoddi a gymeradwywyd (Atodiad 2).

**49 Diweddariad ar Bartneriaeth Pensiwn Cymru.**

Cyflwynodd y Dirprwy Brif Swyddog Cyllid/Dirprwy Swyddog A151 adroddiad i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i Bwyllgor y Gronfa Bensiwn am gynnydd a gwaith Partneriaeth Pensiwn Cymru (WPP).

**Penderfynwyd** nodi Diweddariad Chwarterol a chofnod 'RAID' y PLIC.

**50 Caffael Gweithredwr Partneriaeth Pensiwn Cymru.**

Cyflwynodd y Dirprwy Brif Swyddog Cyllid/Dirprwy Swyddog A151 adroddiad a oedd yn gofyn am gymeradwyaeth ar gyfer Adroddiad Argymhelliad Gweithredwyr Caffael Partneriaeth Pensiwn Cymru (WPP) a ddarparwyd yn Atodiad 1.

**Penderfynwyd** cymeradwyo Adroddiad Argymhelliad Caffael Gweithredwyr WPP yn atodiad 1.

**51 Crynodeb Buddsoddi.**

Cyflwynodd y Dirprwy Brif Swyddog Cyllid/Dirprwy Swyddog A151 adroddiad 'er gwybodaeth' a oedd yn cyflwyno'r gwerthusiad o asedau a'r perfformiad buddsoddi ar gyfer y chwarter, y flwyddyn a'r 3 blynedd a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2023.

**52 Adroddiad Monitro Buddsoddi Chwarterol.**

Cyflwynodd Philip Pearson ac Andre Ranchin, Hymans Robertson, y diweddariad ar y farchnad a'r buddsoddi chwarterol i'r gronfa 'er gwybodaeth.

Gofynnodd y pwyllgor gwestiynau am gynnwys y cyflwyniad ac atebwyd yn briodol iddynt.

**53 Polisi Buddsoddi Cyfrifol.**

Cyflwynodd Philip Pearson, Hymans Robertson, y Polisi Buddsoddiad Cyfrifol 'er gwybodaeth' a oedd yn amlinellu amcanion sylfaenol y Polisi Buddsoddiad Cyfrifol, credoau'r Pwyllgor ar ran y Gronfa a'r hyn a ddisgwyliid o gael y Polisi yn ei le. Roedd hefyd yn rhoi manylion ynghylch y camau a fyddai'n cael eu cymryd i gyflawni'r amcanion hyn a'r modd yr asesir y camau hyn er mwyn barnu a oedd y canlyniadau disgwylid yn cael eu cyflawni.

**54 Cyflwyniad Rheolwr y Gronfa: -**

Gwnaed cyflwyniad gan Julian Brown a Per Dohnal o Russell Investments.

Gofynnodd y pwyllgor gwestiynau am gynnwys y cyflwyniad ac atebwyd yn briodol iddynt.

Nodwyd cynnwys y cyflwyniad a diolchodd y Cadeirydd i Reolwyr y Gronfa am ddod i'r cyfarfod.

Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cronfa Bensiwn (Dydd Mercher, 20 Mawrth 2024)  
Parhad

Daeth y cyfarfod i ben am 12.08 pm

**Cadeirydd**